



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori – crynodeb o ymatebion

Dysgu Oedolion yng Nghymru

Ymgynghoriad ar strwythur ariannu a chyflenwi Dysgu Oedolion yng Nghymru

7 Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg	Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Strwythur ariannu a chyflenwi Dysgu Oedolion yng Nghymru.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill. Datganiad polisi <i>Dysgu Oedolion yng Nghymru</i> a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 – http://llyw.cymru/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/adult-learning-in-wales/?lang=cy
Manylion cysylltu	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: Helen Scaife Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru Tŷ'r Afon Ffordd Bedwas Bedwas Caerffili CF83 8WT e-bost: Post16PlanningandFunding@llyw.cymru ffôn: 0300 025 3895

1. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad ar strwythur ariannu a chyflenwi Dysgu Oedolion yng Nghymru

- 1.1 Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno cynigion ar gyfer ailstrwythuro ariannu a chyflenwi darpariaeth Dysgu Oedolion yng Nghymru.
- 1.2 Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu ystod o ddewisiadau ar gyfer sut i wella dulliau Llywodraeth Cymru o ariannu a chyflenwi Dysgu Oedolion, gan ofyn am ymatebion i ystod o gwestiynau.

Dull Gweithredu Ymgysylltu

- 1.3 Lluniwyd y ddogfen ymgynghori yn dilyn cyfnod o ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid o'r sector Dysgu Oedolion, a helpodd i benderfynu'r dewisiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.
- 1.4 Ymddangosodd y ddogfen ymgynghori ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru rhwng 12 Mehefin a 11 Medi 2018, gan ddenu 316 o ymatebion gan sefydliadau, llywodraeth leol, partneriaethau, cynghorwyr ac unigolion. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei ddeall o'r ymgynghoriad hefyd.
- 1.5 Gofynnwyd i ymatebwyr ddarllen y ddogfen ymgynghori ac ymateb i bob un o'r 16 cwestiwn, gan ddefnyddio holiadur mewn e-bost neu ffurflen ar-lein. Hefyd, cyflwynodd ymatebwyr ymatebion naratif i'r ymgynghoriad.

Strwythur y ddogfen ymgynghori

- 1.6 Rhannwyd y ddogfen ymgynghori yn ddwy brif bennod. Roedd Pennod 1 yn amlinellu'r cynigion ar gyfer newid sut mae gwaith Dysgu Oedolion yn cael ei gynllunio, ei adrodd a'i gyflenwi. Roedd Pennod 2 yn canolbwyntio ar gynigion yn ymwneud ag ariannu Dysgu Oedolion yng Nghymru.
- 1.7 Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn i ymatebwyr gytuno neu anghytuno ag un cynnig neu fwy, ac roedd cwestiynau agored ategol yn gofyn am sylwadau manylach. Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu rhagor o sylwadau ar bob un o'r cwestiynau.


Gwybodaeth am y dadansoddiad

- 1.8 Ar gyfer y dadansoddiad, coladwyd yr ymatebion mewn taenlen Excel, a choladwyd y sylwadau unigol ar sail sector a chwestiwn.
- 1.9 Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw cysylltiad â sector penodol yn atal ymatebwyr mewn unrhyw ffordd rhag meddu ar safbwynt ar bob sector, ac mae'r safbwyntiau hyn wedi'u cynnwys lle bynnag y bo modd.


- 1.10 Cwblhawyd y dadansoddiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru nad ydynt yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn uniongyrchol.
- 1.11 Mae'r crynodeb yn darparu:
- Trosolwg o fanylion yr ymatebion yn ôl sector a nifer yr ymatebion;
 - Y prif safbwynt, meysydd consensws ac anghytuno; a
 - Manylion a phwyntiau perthnasol ychwanegol.
- 1.12 Cyflwynir y canlyniadau yn y penodau canlynol ar sail themâu a chwestiynau.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Derbyniwyd 316 o ymatebion. Roedd 240 ohonynt yn ymatebion gan unigolion yn datgan eu cefnogaeth i'r ymateb ffurfiol a gyflwynwyd gan Addysg Oedolion Cymru. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymatebion hyn yr un fath yn union. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ymgynghori ar Bolisiâu, mae'r ymatebion hyn wedi'u categorïddio ar wahân er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a'r ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd.
- 2.2 Mae Siart 1 isod yn dangos cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, wedi'u categorïddio ar sail sector.



- 2.3 Mae Siart 2 isod yn dangos nifer yr ymatebion i bob cwestiwn ysgrifenedig yn yr ymgynghoriad ar sail sector. Nid yw'r siart hwn yn cynnwys ymatebion nad oeddent yn cyfeirio at gwestiwn penodol.



3. Trosolwg o ymatebion i Bennod 1 – Cyflenwi Dysgu Oedolion yng Nghymru

Cynllunio ac Adrodd

- 3.1 Mae sicrhau bod gennym ddull cadarn ac atebol o gynllunio ac adrodd ar gyfer Dysgu Oedolion yn elfen hanfodol o newid y strwythur a'r dull ariannu.
- 3.2 Er mwyn datblygu'r gwaith hwn, rydym yn cynnig y canlynol:
- Dylai fod yn ofynnol i bob darparwr, boed mewn awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach, gynllunio eu darpariaeth gan ddilyn y Canllawiau Cynllunio a Chyllido Ôl-16 ar gyfer darpariaeth Ran-amser, ac i adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd yn natganiad polisi *Dysgu Oedolion yng Nghymru*;
 - Bydd disgwyl i ddarparwyr gofnodi data am eu dysgwyr a'u cyrsiau ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i sicrhau y gallwn fonitro darpariaeth yn gywir ac yn effeithiol.

Cwestiwn 1 - Ydych chi o'r farn y dylai'r sector Dysgu Oedolion gynllunio ac adrodd ar ddarpariaeth yn unol â'r fframwaith cynllunio ôl-16 ar gyfer AB ran-amser?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	5
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	14
Gwleidyddion	2
Y Cyhoedd/Unigolion	14
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	65

Y farn gyffredinol

Roedd 69% o'r 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylai'r sector gynllunio ac adrodd ar ddarpariaeth yn unol â'r fframwaith cynllunio ôl-16 ar gyfer AB ran-amser.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.3 Roedd pob un o'r ymatebwyr o'r sector SABau o blaid y cynnig hwn, gan ddatgan y byddai'n "darparu cysondeb o safbwynt y cynnig ac ansawdd ledled Cymru, gan hwyluso monitro ac atebolrwydd cyson yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol." Hefyd, nodwyd y dylai'r fframwaith cynllunio "fod â ffocws wedi'i ddiogelu ar ailgysylltu. Ni ddylai Dysgu Oedolion gynnwys gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn unig."

- 3.4 Roedd pedair o'r pum Partneriaeth Dysgu Oedolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blaid y cynnig, ond roeddent yn pwysleisio bod angen i'r ddarpariaeth fod "yn hyblyg ac yn ymatebol i'r galw lleol", a bod angen "cynnwys addysg nad yw o natur draddodiadol."
- 3.5 Roedd SAUau yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, gyda phedwar o bump ymateb yn dadlau o blaid y dull gweithredu hwn. Roeddent yn teimlo y byddai cynllunio yn y modd hwn yn "caniatáu datblygiad wedi'i gynllunio ac yn helpu i nodi bylchau", ond nodwyd bod angen "cydnabod darpariaeth gymunedol Addysg Uwch hefyd".
- 3.6 Roedd deg o'r 18 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig. Roedd eu safbwyntiau'n adleisio safbwyntiau'r Partneriaethau Dysgu Oedolion, gan honni y byddai'r system newydd "yn gwella cysondeb ym maes cynllunio a chyflenwi, ond bod angen fframwaith hyblyg i gydnabod dysgu nad yw'n cael ei achredu... mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn 'ymatebol' yn ei hanfod, felly mae diffyg hyblygrwydd yn berygl posibl."
- 3.7 Roedd y rhan fwyaf o unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hefyd, ond awgrymwyd bod "diben [Dysgu Oedolion] braidd yn amwys" ac y byddai "dewislen o ddarpariaeth leol/ranbarthol/genedlaethol yn ddefnyddiol."
- 3.8 Dim ond dau o'r 14 sefydliad a ymatebodd i'r cwestiwn a oedd yn gwrthwynebu'r dull gweithredu hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r farn y byddai cynllunio darpariaeth yn y modd hwn yn "sicrhau cydraddoldeb ac yn galluogi monitro ac adrodd effeithiol." Eto, roedd eu sylwadau'n adlewyrchu'r ddarpariaeth wahanol sydd ar gael ym maes Dysgu Oedolion, gan ddatgan, "mae'n rhaid i'r gwaith cynllunio ystyried anghenion dysgwyr o gymunedau gwahanol. Mae deilliannau meddal yn allweddol bwysig."

Cwestiwn 2 – Pa fanteision neu anfanteision ydych chi'n eu gweld o fynd ati i roi'r camau hyn ar waith?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	5
Awdurdodau Lleol	17
Sefydliadau	11
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	6
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	52

Y farn gyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn fod newid i system gynllunio gyfartal yn gam cadarnhaol, ond byddai angen i'r system adlewyrchu'n gywir y deilliannau meddalach a darpariaeth hyblyg sy'n allweddol i lwyddiant Dysgu Oedolion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.9 Roedd y rhan fwyaf o sylwadau a dderbyniwyd ar gyfer cwestiwn 2 yn tueddu i adlewyrchu'r sylwadau sydd eisoes wedi'u crynhoi yn yr ymatebion i gwestiwn 1.
- 3.10 Yn gyffredinol, roedd SABau yn teimlo y byddai system gynllunio o'r fath "yn cynnig darpariaeth deg i bob dysgwr, yn dileu dyblygiad, ac yn sicrhau bod darpariaeth bwrpasol o ansawdd uchel ar gael mewn ardaloedd â blaenoriaeth". Fodd bynnag, roeddent yn pryderu "y gallai'r fframwaith fod yn rhy anhyblyg" ac "na fyddai deilliannau meddal yn cael eu hadrodd / gwerthuso." Hefyd, nododd SABau "fod yna wahaniaeth clir rhwng darpariaeth ran-amser wedi'i hachredu gan AB, sy'n gysylltiedig â gofynion Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Lleol, a darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned."
- 3.11 Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn cytuno, gan ychwanegu "y byddai cysondeb yn codi proffil ansawdd [Dysgu Oedolion] ac yn creu tryloywder". Roedden nhw'n rhannu'r pryder "na fyddai dysgu anffurfiol yn cael ei gynnwys" gan arwain o bosibl at ddarparwyr "yn canolbwyntio ar dargedau yn hytrach nag ar ddysgwyr".
- 3.12 Nododd SAUau y byddai'r system "yn gwella'r broses o gynllunio llwybrau dilyniant rhwng darparwyr a lefelau – gan sicrhau mynediad cyfartal" gan bwysleisio'r angen i gadw hyblygrwydd.
- 3.13 Roedd Awdurdodau Lleol yn teimlo y gallai'r system helpu i godi proffil Dysgu Oedolion. Hefyd, "gallai helpu tryloywder, gan hwyluso prosesau craffu a herio er mwyn nodi arferion da a sicrhau ansawdd". Roedden nhw'n teimlo bod angen sicrhau hyblygrwydd hefyd.

Cwestiwn 3 – Os nad ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn, pa ddull fydddech chi'n ei awgrymu?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	0
Sefydliadau Addysg Uwch	2
Awdurdodau Lleol	7
Sefydliadau	6
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	6
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	27

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.14 Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn pwysleisio bod "angen cynnwys darpariaeth trydydd sector i ddatblygu portffolio cwricwlwm Cymru gyfan." Hefyd,

cyfeiriwyd eto at bwysigrwydd hyblygrwydd er mwyn cofnodi gweithgarwch ymgysylltu nad yw'n cael ei achredu.

- 3.15 Nododd SAUau fod angen i'r ddarpariaeth "gael ei chyflwyno mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys trwy ddysgu o bell/e-ddysgu" a bod "angen sicrhau cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)".
- 3.16 Pwysleisiodd Awdurdodau Lleol fod "angen datblygu model cyflenwi sy'n adlewyrchu darpariaeth fwy hyblyg ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a gweithio gyda phobl sy'n bellach o'r farchnad lafur, wedi'i deilwra i gyd-fynd â'r adnoddau sydd ar waith ar hyn o bryd." Hefyd, pwysleisiwyd bod angen "ystyried amrywiaeth, gan hwyluso dilyniant lle bo hynny'n briodol".
- 3.17 Pwysleisiodd sefydliadau fod angen datblygu "fframwaith sy'n cynnwys iechyd a llesiant" ac sy'n "adlewyrchu anghenion lleol".

Cyflenwi darpariaeth Dysgu Oedolion

Cwestiwn 4 - Ydych chi o'r farn mai cynorthwyo Awdurdodau Lleol a/neu Golegau AB i gynllunio a chyflenwi Dysgu Oedolion yw'r ffordd orau o sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflenwi'n deg a chyfiawn ledled Cymru?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	7
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	6
Sefydliadau Addysg Uwch	5
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	11
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	15
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	63

Y farn gyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid ariannu awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i gyflenwi Dysgu Oedolion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.18 Roedd SABau o blaid y dull gweithredu hwn yn gyffredinol, gan nodi bod "gan golegau AB y seilwaith priodol i sicrhau bod llwybrau dilyniant cyflogadwyedd priodol a llwybrau dilyniant eraill yn cyd-fynd ag addysg oedolion ac nad ydynt yn dyblygu darpariaeth.

- 3.19 Roedd pedair o'r pum Partneriaeth Dysgu Oedolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r model hwn, gan nodi bod "angen cydweithio agos (ALI/AB)", ond bod "cyllid tecach yn bwysicach" na'r system gyflenwi.
- 3.20 Roedd pob un o'r ymatebwyr o'r sector SAU o blaid y dull gweithredu hwn, gan nodi ei fod "yn ddefnydd ymarferol o'r adnoddau sydd ar gael".
- 3.21 Roedd Awdurdodau Lleol (ALLau) o blaid y dull gweithredu hwn yn gyffredinol, a dim ond un awdurdod a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig. Yn ôl yr awdurdod hwn, "mae'n gwneud synnwyr i awdurdodau lleol a cholegau AB gynllunio a chyflenwi Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar y cyd. Mae'r strwythur presennol yn gweithio'n llwyddiannus." Cyfeiriodd eraill a oedd o blaid y cynnig at "ehangder yr arbenigedd, y sgiliau, yr adnoddau a'r cysylltiadau â phartneriaid sy'n bodoli ar hyn o bryd", gan nodi y byddai'r model "yn cadw'r un dull gweithredu lle bo hynny'n llwyddiannus. Mae gan ALLau arbenigedd ym maes llywodraethu a gwybodaeth am anghenion lleol. Maent yn atebol i etholwyr ac yn gweithio er budd y gymuned ehangach".
- 3.22 Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu y byddai sefydlu system ariannu cyfiawn yn arwain at lai o gyllid ar gyfer rhai ALLau, a'r perygl o ansefydlogi darpariaeth. "Mae angen i seilwaith sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau".
- 3.23 Cafwyd gwahaniaeth barn cymharol gyfartal gan unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd rhai'n teimlo bod "ALLau a Cholegau AB eisoes â'r seilwaith ar waith", tra bod eraill yn credu "bod y system bresennol yn ddigyswllt ac yn anghyfartal".
- 3.24 Roedd un ymateb i'r cwestiwn hwn yn gefnogol, ond roedd yn pwysleisio "y gallai ALLau ddileu darpariaeth os yw colegau'n derbyn cyllid; mae angen clustnodi cyllid ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned er mwyn diogelu darpariaeth...ar y llaw arall, pe bai ALLau yn derbyn cyllid, byddai'r cyllid ychwanegol a ddyrennir fesul SAB yn diflannu".
- 3.25 Cafwyd cymysgedd cyfartal o ymatebion gan sefydliadau, gyda rhai o blaid a rhai yn erbyn y model hwn. Roedd rhai'n teimlo y dylem ni [Llywodraeth Cymru] "gadw at y drefn bresennol er mwyn osgoi ansefydlogi'r system", a bod "y pwyslais yma ar 'a/neu'. Mae angen dilyniant o ran darpariaeth yn hytrach na wynebu'r perygl o golli arferion da".
- 3.26 Nid oedd ymatebwyr eraill "yn ffafrio unrhyw system benodol cyn belled â bod y system yn dryloyw a bod modd olrhain y cyllid yn hawdd i'r ddarpariaeth a'r deilliannau".

Cwestiwn 5 - Os ydym yn dyrannu cyllid ychwanegol i golegau AB, ydych chi'n meddwl y dylem neilltuo'r arian hwn (ei glustnodi'n benodol) i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio'n llwyr ar Ddysgu Oedolion?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	4
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	11
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	14
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	60

Y farn gyffredinol

Dylid neilltuo unrhyw gyllid a ddyrennir i Sefydliadau AB trwy'r Grant Dysgu Cymunedol er mwyn diogelu a chefnogi Dysgu Oedolion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.27 Roedd pob SAB a ymatebodd yn cytuno y byddai neilltuo cyllid yn fanteisiol. Roeddent o'r farn y byddai neilltuo cyllid yn helpu "i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio'n briodol i ddiwallu'r angen". Hefyd, roeddent yn awyddus i sicrhau bod "paramedrau clir yn cael eu gosod; fel arall, byddai Dysgu Oedolion nad yw wedi'i achredu yn diflannu'n gyntaf".
- 3.28 Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion o blaid y cynnig hwn hefyd. Roeddent yn teimlo bod hyn "yn hanfodol er mwyn osgoi ailddyrrannu – fel arall gallai defnydd fod yn amodol ar flaenoriaethau sefydliadol."
- 3.29 Roedd pob un o'r SAUau yn cytuno â'r cynnig, gan nodi ei fod yn bwysig er mwyn "diogelu [Dysgu Oedolion]; fel arall, mae yna berygl y caiff cyllid ei ddargyfeirio i feysydd eraill."
- 3.30 Dim ond un awdurdod lleol a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Y farn gyffredinol oedd bod angen neilltuo cyllid er mwyn osgoi'r "perygl sylweddol y caiff cyllid ei ddefnyddio ar gyfer meysydd gweithredu eraill. Mae yna berygl y caiff ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau prif ffrwd. Byddai neilltuo cyllid yn helpu i sicrhau cydweithio".
- 3.31 Roedd y cyhoedd o blaid y cynnig hwn hefyd, gan ddatgan bod modd "blaenoriaethu anghenion ardaloedd gan ddibynnu ar anghenion penodol y boblogaeth leol".
- 3.32 Yn gyffredinol, roedd sefydliadau o blaid neilltuo cyllid, gan ddatgan "oni bai bod cyllid yn cael ei neilltuo, mae'n debygol o gael ei ddefnyddio ym meysydd eraill. Mae angen i Lywodraeth Cymru ariannu addysg oedolion a dysgu gydol oes yn yr

un modd ag y mae'n ariannu addysg ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed. Mae angen ymrwymo i Ddysgu Oedolion er mwyn cydnabod anghenion dysgwyr dros 25 oed".

Cwestiwn 6 - Ydych chi o'r farn mai cynorthwyo partneriaethau'n uniongyrchol i gyflenwi Dysgu Oedolion fyddai'r ffordd orau o sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno'n deg ledled Cymru?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	5
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	11
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	16
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	63

Y farn gyffredinol

Cafwyd ymateb cymysg, ond nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid ariannu partneriaethau yn uniongyrchol i gyflenwi Dysgu Oedolion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.33 Dim ond un o'r SABau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a oedd o blaid y dull gweithredu hwn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ei wrthwynebu. Y teimlad cyffredinol oedd y "byddai'n creu haen ychwanegol a fyddai angen cyllid, gan olygu bod llai'n mynd tuag at gyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol." Hefyd, roeddent yn pryderu nad oes gan y partneriaethau presennol "unrhyw atebolrwydd ffurfiol (mae partneriaethau'n drefniadau gwirfoddol)."
- 3.34 Roedd SABau yn cefnogi'r model hwn ar y sail y gallai weithio "o bosibl, ar y cyd â chorff cenedlaethol", ond roeddent yn pryderu hefyd am "y perygl o amddiffyn tiriogaethol, ac anfanteision ar gyfer ardaloedd gwledig".
- 3.35 Roedd barn y pum Partneriaeth Dysgu Oedolion yn rhanedig. Roedd un bartneriaeth o blaid y cynnig, roedd dwy yn erbyn ac roedd y ddwy arall yn methu penderfynu. Eu pryderon oedd "y byddai angen neilltuo cyfran mwy o'r grant o bosibl ar gyfer seilwaith wrth sefydlu unrhyw drefniadau newydd". Hefyd, roeddent nhw wedi cyfeirio at y ffaith nad yw partneriaethau 'wedi'u sefydlu fel endidau cyfreithiol i dderbyn cyllid".
- 3.36 Cafwyd ymateb cymysg gan SAUau hefyd. Roeddent yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol ar yr amod bod y partneriaethau yn cael eu cydgysylltu i ymateb i anghenion lleol, gan nodi bod "angen i bartneriaethau sefydlu cysylltiadau â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Ymggyrhaedd yn Ehangach, a darparwyr

trydydd sector". Fodd bynnag, mynegwyd pryderon "nad yw strwythurau presennol yn ddigon cadarn."

- 3.37 Cafwyd ymateb cymysg gan Awdurdodau Lleol hefyd, er nad oedd y rhan fwyaf o blaid y model hwn. Mewn achosion lle mae partneriaethau presennol yn cael eu harwain gan Awdurdod Lleol, roedd yr awdurdod lleol yn cefnogi'r cynnig. Serch hynny, mynegwyd pryderon clir "nad yw'r un ateb yn briodol i bawb. Mae'r system bresennol yn gweithio'n dda; mae'n system integredig ac mae cysondeb yn hanfodol". Roedd awdurdodau lleol yn awyddus i "warchod y drefn bresennol. Mae gan bartneriaethau wybodaeth leol, a hanes llwyddiannus mewn rhai ardaloedd". Roedd awdurdodau lleol yn pryderu y byddai ariannu'r partneriaethau eu hunain yn arwain at y perygl o 'ychwanegu haen arall o weinyddiaeth/biurocratiaeth".
- 3.38 Cafwyd ymateb rhanedig gan sefydliadau hefyd. Roedd y rhai a oedd o blaid yn teimlo y byddai'r partneriaethau "yn gallu dwyn ynghyd yr ystod lawn o bartneriaid lleol mewn model partneriaeth ranbarthol ... os caiff y partneriaethau eu strwythuro'n briodol. Mae cynllunio adnoddau rhanbarthol yn gam cadarnhaol, ond mae angen gwaith monitro agos". Awgrymodd y sefydliadau y dylai Llywodraeth Cymru "ystyried darparu cyllid tair gwaith y flwyddyn fel bod partneriaethau'n gallu datblygu darpariaeth ac ansawdd dysgu ac addysgu ar sail cynllunio mwy hirdymor".

Cwestiwn 7 - Ydych chi o'r farn bod y partneriaethau presennol yn ddigon cadarn ac wedi'u strwythuro'n ddigon da i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	3
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	11
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	16
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	61

Y farn gyffredinol

Nid yw'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod y partneriaethau presennol yn ddigon cadarn i fod yn ddull wedi'i ariannu o gyflenwi Dysgu Oedolion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.39 Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr AB yn teimlo bod y partneriaethau presennol yn ddigon cadarn i gyflawni'r swyddogaeth hon. Roeddent yn credu bod "ansawdd ac effeithiolrwydd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn amrywio ledled Cymru a bod perygl o ddyblygu darpariaeth".

- 3.40 Roedd y rhan fwyaf o'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn rhannu'r farn hon – dim ond un a oedd yn teimlo bod eu partneriaeth yn ddigon cadarn. Un o'r rhesymau am eu hymateb oedd "capasiti annigonol; diffyg statws endid cyfreithiol partneriaethau i allu datblygu i'w potensial llawn".
- 3.41 Dim ond un o'r tri SAU a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a oedd yn teimlo bod y partneriaethau presennol yn ddigon cadarn i gyflawni'r swyddogaeth hon. Fodd bynnag, roeddent o'r farn fod gan y model hwn botensial, gan ddatgan, "mae ansawdd darpariaeth yn dibynnu ar yr ardal, ond mae modd sicrhau gwelliant trwy ddarparu arweiniad a chymorth".
- 3.42 Roedd y tri ateb (Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod) wedi denu nifer cyfartal o ymatebion gan Awdurdodau Lleol. Roeddent yn teimlo bod "y gostyngiad diweddar mewn lefelau cyllid wedi niweidio effeithlonrwydd partneriaethau", a bod "amrywiaeth sylweddol ledled Cymru. Nid y model partneriaeth presennol yw'r model mwyaf effeithiol."
- 3.43 Hefyd, roeddent yn gwrthwynebu creu partneriaethau newydd, gan ddweud y gallent "ychwanegu biwrocratiaeth heb unrhyw fanteision".
- 3.44 Nid oedd unrhyw un o'r sefydliadau a ymatebodd yn teimlo bod y partneriaethau presennol yn ddigon cadarn ar gyfer y rôl hon. Dywedodd un, "mae partneriaethau'n amrywio ledled Cymru. Mae rhai'n llwyddiannus ac eraill heb fod yn llwyddiannus". Roedd un arall yn teimlo bod cyllid yn broblem, gan nodi: "Mae angen Rheolwyr Partneriaethau er mwyn cynllunio ac ariannu darpariaeth", ac awgrymodd y dylid "Gosod terfyn ar gyfran y cyllid y gellir ei ddefnyddio ar gyfer costau rheoli a rhedeg".

Cwestiwn 8 - Ydych chi o'r farn y byddai cynorthwyo un corff strategol cenedlaethol i oruchwylio cynllunio strategol a chyflenwi Dysgu Oedolion yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflenwi'n deg a chyfartal ledled Cymru?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	6
Sefydliadau Addysg Uwch	3
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	12
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	16
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	240
Cyfanswm	301

Y farn gyffredinol

Roedd yr unigolion a gyflwynodd ymatebion yn cefnogi Addysg Oedolion Cymru o blaid y model hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eraill yn ei wrthwynebu.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.45 Roedd dau SAB o blaid y model hwn, roedd pedwar yn ei wrthwynebu, ac un yn ansicr. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r model yn pryderu y byddai'n "ychwanegu rhagor o haenau rheoli cymhleth cyn bod cyllid yn cyrraedd y dysgwr; oherwydd is-gontractio, byddai dyraniadau ariannol yn cael eu lleihau ymhellach erbyn iddynt gyrraedd ardal leol". Hefyd, mynegwyd pryderon a fyddai gan un SAB "yr arbenigedd, y wybodaeth am y farchnad leol, y seilwaith (e.e. i reoli gwaith caffael), y strwythur rheoli neu hanes llwyddiannus o sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel, i fod yn gyfrifol am gynllunio neu gyflenwi [Dysgu Oedolion] ledled Cymru".
- 3.46 Yn ôl y rhai a oedd o blaid y cynnig: "Byddai Model Cenedlaethol yn gwella effeithlonrwydd; byddai'r ffaith fod un sefydliad yn cynllunio ac yn cydgysylltu darpariaeth yn ei chryfhau ac yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu neu gystadleuaeth ar gyfer yr un dysgwyr; gallai sefydliad fel Addysg Oedolion Cymru wneud cyfraniad allweddol at gydgyssylltu cynlluniau, rhannu arferion da a rhoi cyngor ar weithdrefnau."
- 3.47 Roedd un SAB yn credu bod y model yn "ddichonadwy" ond roedd yn pryderu y byddai'n fenter sylweddol ar gyfer corff arweiniol.
- 3.48 Roedd un o'r pum Partneriaeth Dysgu Oedolion a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid y model darpariaeth hwn. Er y nodwyd y gallai un sefydliad arwain at "safoni ffioedd cyrsiau a chyflog tiwtoriaid", mynegwyd pryder "bod cyllid yn gyfyngedig ar hyn o bryd, a gallai un corff leihau'r cyllid sydd ar gael er mwyn ei gynnal ei hun neu mewn model is-gontractio".
- 3.49 Hefyd, mynegwyd pryderon "na fydd anghenion lleol yn cael eu diwallu gan arwain at golli arbenigedd lleol a chyfyngu ar ymatebolrwydd lleol; gallai corff cenedlaethol ganolbwyntio darpariaeth ar flaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach nag ar angen lleol, gan arwain at golli cyllid / darpariaeth leol".
- 3.50 Roedd safbwyntiau SAUau yn amrywiol iawn. Roedd dau o blaid, roedd un yn erbyn ac ni chafwyd sylw gan y tri arall. Roedd un SAU a oedd o blaid y model yn teimlo "y gallai roi llais cenedlaethol i Ddysgu Oedolion a phresenoldeb gwleidyddol cryfach – ond byddai'n arwain at newid mawr – mae'n anodd gwybod os yw Cymru'n barod amdano eto".
- 3.51 Nid oedd unrhyw un o'r 18 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blaid model y Coleg Cenedlaethol.
- 3.52 Roedd yr awdurdodau lleol yn cydnabod y byddai rhai "manteision corfforaethol: marchnata, ffioedd cenedlaethol, tâl tiwtoriaid, casglu data" gan awgrymu "y dylai gwaith monitro cadarn oddi mewn i fframweithiau cydnabyddedig fod yn ddigon i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd deg a chyfartal".
- 3.53 Fodd bynnag, roeddent o'r farn hefyd "nad yw'r model yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethu/teilwra gwasanaethau/dysgu ar sail angen lleol (unigol/ ALL/ isranbarthol) a galw lleol, ac na fydd yn llwyddo i gyrraedd dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd". Hefyd, roeddent yn pryderu "na fyddai ardaloedd gwledig yn cael eu

gwasanaethu'n dda; yn hytrach, byddai cyllid a darpariaeth yn canolbwyntio ar ardaloedd â phoblogaeth fawr/ardaloedd trefol".

- 3.54 Yn y pen draw, roeddent yn pryderu y byddai'r model hwn "yn bygwth partneriaethau presennol; yn lletchwith ac yn anodd ei reoli; yn arwain o bosibl at ansefydlogi a dileu darpariaeth [Dysgu Oedolion], cysylltiadau a seilwaith presennol, gan gynnwys tiwtoriaid, cyfleusterau a safleoedd; y posibilrwydd o arwain at annarbodion maint; byddai'n rhy fawr i'w drefnu a'i gyflenwi."
- 3.55 Roedd y rhan fwyaf o ymatebion gan unigolion o blaid y cynnig ac yn teimlo "y byddai'n hwyluso dull gweithredu mwy strategol a phatrwm cyson ledled Cymru, yn amodol ar amgylchiadau lleol"; ac y byddai'n "cynnig llwybrau dilyniant cynaliadwy i AU trwy'r Brifysgol Agored."
- 3.56 Roedd eraill yn cefnogi'r model ar y sail "y gallai Coleg Cenedlaethol weithredu fel goruchwyliwr ac is-gontractio gwaith i ddarparwyr partner; ond byddai angen iddo fod yn hyblyg i adlewyrchu gwahaniaethau lleol a diwylliannol".
- 3.57 Fodd bynnag, roedd un unigolyn yn pryderu "y byddai coleg cenedlaethol yn rhy fawr i fynd i'r afael â phroblemau gwahanol ledled y rhanbarthau".
- 3.58 Roedd y ddau Gynghorydd a ymatebodd yn gwrthwynebu'r model. Roedd un yn teimlo "bod yna berygl y bydd partneriaid yn tynnu yn ôl", a mynegwyd pryder ynglŷn â "chwmpas diogelwch a sefydlogrwydd hirdymor unrhyw gorff strategol 'presennol'".
- 3.59 Nid oedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n cefnogi'r model. Roeddent yn teimlo bod "Coleg Cenedlaethol yn ymddangos yn rhy fiwrocrataidd; arbenigedd lleol yw'r allwedd i ddiwallu anghenion poblogaeth leol; gallai arwain at fonopoli; gellid colli sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer niferoedd bach, gan arwain at golli cymeriad unigol ac arferion gorau; gallai pryderon godi ynglŷn â gallu un corff cenedlaethol i deilwra darpariaeth i ddiwallu anghenion lleol." Hefyd, mynegwyd pryderon ynglŷn ag "effaith ar bartneriaethau presennol a staff a gyflogir oherwydd diffyg atebolrwydd democrataidd".
- 3.60 Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o gefnogaeth i'r 'syniad' o greu corff strategol cenedlaethol. Roedd y manteision posibl yn cynnwys: "codi proffil Addysg Oedolion yn y gymdeithas ac ar lefel y llywodraeth, gan wella atebolrwydd ar gyfer ansawdd, gwelliant ac arloesi yn y sector. Byddai angen trefn fonitro ac olrhain glir a phrosesau hunanasesu soffistigedig, ond os na allai corff strategol cenedlaethol fodloni'r trothwy ansawdd ei hun, fe allai beryglu hygyrddedd a gwaith y sector".
- 3.61 Ar y llaw arall, roedd y dystiolaeth gynnar yn ymwneud â Chymraeg i Oedolion yn dangos bod yna fanteision i un corff cenedlaethol sy'n cydgysylltu gwaith cynllunio a chyflenwi trwy ganolfannau ategol.
- 3.62 Cyflwynodd 240 o unigolion ymatebion a oedd fwy neu lai'r un fath yn union er mwyn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru. Wrth gyflwyno eu hymateb ar y cyd, dywedodd cefnogwyr Addysg Oedolion Cymru:

"Byddai corff cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar addysg oedolion, wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ac yn gweithio fel rhan o strwythur

cyflenwi cadarn, yn helpu i sicrhau dull gweithredu mwy safonedig a chyson ledled Cymru. Hefyd, byddai'n darparu trosolwg strategol ac yn golygu bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.... Bydd y model cadarnach hwn yn codi proffil Dysgu Oedolion yn y gymuned trwy gael effaith gymdeithasol ac economaidd wedi'i chynllunio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol”.

Cwestiwn 9 – Ydych chi o'r farn y dylai'r corff gael ei gaffael?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	3
Awdurdodau Lleol	16
Sefydliadau	12
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	15
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	240
Cyfanswm	299

Y farn gyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwrthwynebu caffael coleg/ 'corff' cenedlaethol.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.63 Roedd y rhan fwyaf o SABau a ymatebodd yn gwrthwynebu'r cynnig i gaffael y gwasanaeth. Roeddent yn teimlo “nad yw mabwysiadu strategaeth gaffael yn ateb ymarferol AC y byddai'n arwain at lefelau uwch o waith gweinyddol a phroses hir a biwrocraidd pan gaiff cyllidebau blynyddol eu dyrannu.”
- 3.64 Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn gan y Partneriaethau Dysgu Oedolion. Roedd tair partneriaeth o blaid caffael, gan ddatgan “mae'n hollbwysig bod darpariaeth yn seiliedig ar dendro agored er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder”. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod “Addysg Oedolion yn sector cymhleth ac amrywiol sy'n gofyn am safleoedd cyflenwi a chynllunio lleol. Ni fyddai'n ymarferol caffael un sefydliad i wneud y gwaith hwn”.
- 3.65 Hefyd, mynegwyd awydd i sicrhau cyllid dros gyfnod hirach os yw caffael yn ddewis posibl: “Bydd angen dyraniad cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned gwarantedig am isafswm o 3 blynedd ac uchafswm o 5 mlynedd ar gyfer proses gaffael”.
- 3.66 Nid oedd ymatebwyr AU o blaid y model hwn, gan ddatgan bod “perygl o golli llawer o leoliadau cymunedol os caiff un sefydliad ei gaffael”.
- 3.67 O safbwynt awdurdodau lleol, roedd “rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad o gaffael corff. Os yw Corff Strategol Cenedlaethol yn gyfrifol am ddarparu Addysg Oedolion

yng Nghymru, gallai ennyn hyder bod gan y sefydliad llwyddiannus y gallu a'r arbenigedd gofynnol". Roeddent yn adleisio'r galw am sicrhau bod dyraniadau cyllid yn cael eu pennu "ar gyfer isafswm o 3-5 mlynedd".

- 3.68 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn gwrthwynebu'r cynnig gan ddatgan "y byddai angen proses gaffael eilaidd i sicrhau bod modd diwallu anghenion lleol. Byddai hyn yn gostus, yn rhy fiwrocrataidd ac yn dargyfeirio arian o ddysgwyr. Hefyd, mae yna berygl o amharu ar ddarpariaeth yn ystod y broses gaffael." Hefyd, mynegwyd rhywfaint o bryder "y byddai caffael yn debygol o gynnwys darparwyr o'r tu allan i Gymru".
- 3.69 Hefyd, roedd y rhan fwyaf o unigolion yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail "y byddai'r broses gaffael yn cymryd llawer o amser ac yn gofyn am dendro agored ledled yr UE".
- 3.70 Cafwyd ymateb cymysg gan sefydliadau. Roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig yn teimlo ei fod yn ofynnol er mwyn "sicrhau cydraddoldeb, ansawdd a thegwch"; fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n gwrthwynebu proses gaffael.

Cwestiwn 10 - Ydych chi o'r farn y dylid rhoi'r dasg o gyflawni'r rôl hon i SAB sy'n bodoli eisoes?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	4
Awdurdodau Lleol	17
Sefydliadau	12
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	16
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	240
Cyfanswm	302

Y farn gyffredinol

Er bod yr unigolion a gyflwynodd ymatebion yn cefnogi Addysg Oedolion Cymru o blaid y dull gweithredu hwn, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr eraill yn ei wrthwynebu.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.71 Cafwyd ymateb cymysg iawn gan y saith SAB a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, gyda rhai o blaid y cynnig ac eraill yn ei wrthwynebu. Roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig yn teimlo bod "blaenoriaethau gwahanol yn bodoli mewn ardaloedd gwahanol, ond y gallai sefydliad fel Addysg Oedolion Cymru wneud cyfraniad allweddol at gydgyssylltu cynlluniau, rhannu arferion da, rhoi cyngor ar weithdrefnau ac ati". Roedd eraill yn teimlo "nad un corff sy'n goruchwyllo'r gwaith strategol o gynllunio a chyflenwi addysg oedolion yw'r ateb mwyaf priodol."

- 3.72 Roedd pob un o'r Partneriaethau Dysgu Oedolion yn gwrthwynebu'r cynnig. Yn ôl un bartneriaeth, "mae angen ystyried yr effaith negyddol bosibl ac effaith amharu ar ddarpariaeth wrth drosglwyddo i un darparwr a chaffael darpariaeth leol". Mynegwyd pryderon gwirioneddol ynglŷn ag effaith hyn ar ddarpariaeth awdurdodau lleol, a nododd un bartneriaeth, "os yw cyllid yn cael ei ailgyfeirio i gorff cenedlaethol, mae'n annhebygol y bydd y strwythur Addysg Oedolion yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol."
- 3.73 Cafwyd ymatebion cymysg gan SAUau hefyd. Roedd un SAU o blaid y cynnig hwn, ond roedd tri arall yn ei wrthwynebu. Roedd y SAU a oedd o blaid yn teimlo bod "Addysg Oedolion Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i dderbyn y rôl hon os caiff y model Corff Cenedlaethol ei mabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n rhaid cwestiynu a yw Cymru mewn sefyllfa i gwblhau'r newid hwn; mae yna berygl o amharu ar y sector; ac mae'r seilwaith presennol yn cefnogi ALLau". Roedd eraill yn teimlo mai "cydweithio yw'r ffordd orau o ddarparu cymaint o hyblygrwydd a dewis â phosibl".
- 3.74 Nid oedd unrhyw un o'r awdurdodau lleol yn cefnogi'r cynnig hwn. Meddai un ohonynt: "Os yw Addysg Oedolion Cymru yn cyflawni'r rôl hon, byddai angen ychwanegu cyllid y corff at gronfa'r ddarpariaeth addysg oedolion leol; ni fyddai'n deg i'r sefydliad weithredu fel darparwr a chomisiynydd. Byddai'r ffaith fod SAB yn derbyn cyllid ac yn gweithredu fel darparwr yn arwain at wrthdaro buddiannau; byddai hynny'n berthnasol i unrhyw SAB unigol".
- 3.75 Roedd awdurdod lleol arall yn pryderu am gyfyngu'r dewis i SAB, gan ddatgan "nad yw'r sgiliau i ddatblygu Corff Cenedlaethol [cynllunio, monitro contractau a datblygu partneriaeth] wedi'u cyfyngu i'r system SABau bresennol."
- 3.76 Cafwyd ymateb cymysg gan unigolion a atebodd y cwestiwn hwn, ond roedd y rhan fwyaf yn gwrthwynebu'r cynnig. Wrth ysgrifennu o blaid y cynnig, meddai un unigolyn, "mae Addysg Oedolion Cymru yn ddarparwr cenedlaethol sy'n haeddu'r rôl hon Byddai angen i SAB ddatblygu cyrhaeddiad cenedlaethol nad oes gan Addysg Oedolion Cymru ar hyn o bryd". Fodd bynnag, roedd unigolyn arall yn pryderu "y byddai defnyddio SAB sy'n bodoli eisoes yn creu rhaniad yn y sector".
- 3.77 Roedd tri sefydliad o blaid y dull gweithredu hwn, ond roedd naw arall yn gwrthwynebu'r cynnig. Er bod rhai'n teimlo mai "Addysg Oedolion Cymru fyddai'r darparwr cenedlaethol derbyniol/yr unig ddarparwr", mynegwyd llawer o bryderon ynglŷn â'r ffaith y byddai un sefydliad yn gweithredu fel comisiynydd a darparwr, gan arwain o bosibl at wrthdaro buddiannau. Roedd un sefydliad yn teimlo "y dylai'r penderfyniad fod yn destun cystadleuaeth agored."
- 3.78 Yn eu llythyr o gefnogaeth, amlinellodd aelodau Addysg Oedolion Cymru pam maent yn teimlo bod eu sefydliad mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rôl hon.
- 3.79 Meddai'r llythyr:
- "Mae Addysg Oedolion Cymru mewn sefyllfa unigryw i gydgyssylltu a chynllunio darpariaeth addysg oedolion ledled Cymru, fel yr amlinellir ym Model 3 o'r cynigion. Mae gan Addysg Oedolion Cymru broffil ansawdd rhagorol a lefelau uchel o foddhad dysgwyr, gan ddatblygu trefniadau partneriaeth cadarn sy'n ganolog i'n holl waith. Gall hyn fod yn feincnod ar*

gyfer codi ansawdd y ddarpariaeth ledled y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned.”

Cwestiwn 11 - Pa un o'r tri model a amlinellir fyddai fwyaf effeithiol o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn deg ac yn hygyrch i ddysgwyr ledled Cymru gyfan?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	6
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	5
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	10
Gwleidyddion	0
Y Cyhoedd/Unigolion	15
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	240
Cyfanswm	301

Y farn gyffredinol

Ar sail cydbwysedd yr ymatebion a ddaeth i law, roedd mwy o gefnogaeth i Fodel 1 ledled y sector. Er bod y nifer fwyaf o ymatebion unigol o blaid Model 3, roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi dod o aelodau Addysg Oedolion Cymru. Roedd cefnogaeth o'r tu allan i'r sefydliad hwn yn gyfyngedig iawn, a phrin iawn oedd y gefnogaeth gan SABau, Awdurdodau Lleol, sefydliadau neu Bartneriaethau Addysg Oedolion sy'n bodoli eisoes.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.80 Ychydig iawn o sylwadau a gofnodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.
- 3.81 Roedd y rhan fwyaf o SABau yn cefnogi Model 1. Meddai un ohonynt, “mae'n fwy tebygol o lwyddo gan mai ALI/SAB sy'n cyflawni'r rôl arweiniol yn y bartneriaeth ranbarthol bresennol”.
- 3.82 Roedd y rhan fwyaf o Bartneriaethau Dysgu Oedolion yn cefnogi Model 1 hefyd, gan nodi y byddai'n “datblygu'r gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud, yn rhannu arferion da gan mai ALLau a SABau sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cyrsiau, yn defnyddio'r Wybodaeth am y Farchnad Lafur sydd ar gael eisoes, ac yn cydnabod y manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach yn eu cymunedau.”
- 3.83 Cafwyd cefnogaeth i bob un o'r Modelau gan SAUau, a oedd o blaid cymysgedd o Fodelau 1 a 2, yn ogystal â Model 3. Roedd un SAU yn argymhell “cefnogi partneriaeth rhwng ALLau/SABau a Phartneriaethau Dysgu Oedolion gydag un darparwr arweiniol ym mhob ardal – mae angen sicrhau adnoddau digonol ar gyfer y bartneriaeth i hwyluso darpariaeth effeithiol, gan gysylltu â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Phartneriaethau Ymgynghraedd yn Ehangach.”

- 3.84 Dewiswyd Model 1 gan 14 o'r 18 Awdurdod Lleol a ymatebodd, ac roedd y pedwar arall o blaid Model 2. Yn ôl un ymatebydd, "dylai cefnogaeth ar gyfer y model hwn barhau yn ardal ein ALI – byddai Modelau 2 a 3 yn effeithio ar ddysgwyr a darpariaeth".
- 3.85 Cafwyd ymateb cymysg gan sefydliadau, ond roedd y mwyafrif o blaid Model 1. Yr unig sylwadau a ddaeth i law oedd sylwadau gan sefydliadau nad oeddent yn cefnogi unrhyw un o'r modelau a gynigiwyd. Roedd un o blaid "model sy'n cynnwys corff arweiniol mewn model partneriaeth (y SAB yn y rhan fwyaf o achosion), ond mae'n rhaid sicrhau bod y trefniadau'n ddigon hyblyg i ganiatáu i ALI gyflawni'r swyddogaeth os yw hynny'n fwy priodol." Roedd eraill yn teimlo "nad oes modd dewis model ar sail tystiolaeth gyfyngedig", gan ychwanegu na allent gytuno ar unrhyw gynigion [modelau] oherwydd strwythur y cwestiwn. "Yr unig fodelau derbyniol yw bod awdurdodau lleol yn arwain ar eu pennau eu hunain, neu fod awdurdodau lleol yn arwain partneriaethau sydd wedi'u diffinio a'u cyfarwyddo'n glir ac sydd â chysylltiadau addas".

Cwestiwn 12 - Pa un o'r tri model a amlinellir fyddai fwyaf effeithiol o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn deg ac yn hygyrch i ddysgwyr ar draws eich awdurdod unedol?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	6
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	5
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	8
Gwleidyddion	0
Y Cyhoedd/Unigolion	15
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	240
Cyfanswm	299

Y farn gyffredinol

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg iawn i'r ymatebion i gwestiwn 11.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 3.86 Ychydig iawn o sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o dystiolaeth a gyflwynwyd yn ymateb i'r cwestiynau manylach blaenorol.

4. Trosolwg o ymatebion i Bennod 2 – Ariannu Dysgu Oedolion yng Nghymru

- 4.1 Wrth ystyried sut i ailstrwythuro'r gwaith o gyflenwi Dysgu Oedolion, mae'n bwysig ein bod yn ystyried hefyd sut y dylem ariannu'r sector.
- 4.2 Ar hyn o bryd, mae Dysgu Oedolion yng Nghymru yn cael ei ariannu fel rhan o'r gyllideb Ôl-16 – naill ai fel Grant Dysgu Cymunedol penodol trwy Awdurdodau Lleol (ALLau); neu fel rhan o'r ddarpariaeth brif ffrwd ran-amser trwy Sefydliadau Addysg Bellach (SABau).

Opsiynau ar gyfer newid y ffordd rydym yn dosbarthu'r Grant Dysgu Cymunedol (GDC)

Cwestiwn 13 – Pa un o'r opsiynau ariannu ym Mhennod 1 ydych chi'n ei gefnogi, a pham?

Ymatebion yn ôl sector	
Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	6
Sefydliadau Addysg Uwch	4
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	11
Gwleidyddion	0
Y Cyhoedd/Unigolion	15
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	59

Y farn gyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i greu fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid yn seiliedig ar y boblogaeth ac amddifadedd incwm a/neu amddifadedd addysg.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 4.3 Rhoddodd y chwe SAB a ymatebodd i'r cwestiwn hwn ymateb cymysg. Roedd un o blaid Opsiwn A gan ei fod yn teimlo "ei fod yn darparu mwy o hyblygrwydd o ran galluogi darparwyr i gyflenwi Dysgu Oedolion sy'n diwallu anghenion ieuchyd a lles a dychwelyd i gyflogaeth pob dysgwr, beth bynnag fo'i oedran/amddifadedd incwm". Roedd eraill yn anghytuno, gan nodi bod "poblogaeth yn unig yn faen prawf rhy generig a allai hepgor ardaloedd eraill efallai nad oes ganddynt niferoedd mor sylweddol ond sydd ag ardaloedd o amddifadedd. Yr ardaloedd hyn sydd angen cymorth er mwyn helpu i adfywio cymunedau ac economïau, felly byddai Opsiwn B yn opsiwn mwy teg i ddyrannu cyllid."
- 4.4 Roedd rhai SABau yn teimlo mai cyfuniad o Opsiynau B a C fyddai'r opsiwn gorau, gan awgrymu y "dylid rhoi sylw i angen, a ddylai fod yn sbardun ar gyfer cyllid a darpariaeth i gefnogi'r rhai mwyaf amddifad."

- 4.5 Dywedodd un o'r SABau y "dylid ystyried materion yn ymwneud â theneurwydd poblogaeth a gwledigrwydd. Mae'n werth ystyried yr awgrym y gallai fod rhyw fath o gynnydd mewn perthynas â theneurwydd poblogaeth".
- 4.6 Cafwyd ymateb cymysg gan Bartneriaethau Dysgu Oedolion hefyd. Roedd un yn teimlo mai Opsiwn A "yw'r lleiaf niweidiol ac sy'n cael ei effeithio leiaf gan y problemau gyda'r fethodoleg a amlinellir yn yr adran mwy o wybodaeth". Roedd eraill yn teimlo y "dylai dwysedd poblogaeth, gwledigrwydd a theneurwydd poblogaeth gael eu hystyried yn unol â phoblogaeth; mae costau i ddarparu a monitro darpariaeth yn uwch mewn ardaloedd gwledig".
- 4.7 Nododd cefnogwyr Opsiwn C y "dylai cyllid gael ei ddefnyddio i godi safonau addysgol sgiliau cyflogadwyedd sylfaenol ac ati (yn dilyn datganiad polisi [Dysgu Oedolion Cymru]). Os byddwch chi'n codi safonau addysgol pobl, bydd cyfleoedd cyflogaeth yn gwella a gobeithio y bydd hynny'n torri'r cylch sgiliau isel mewn teuluoedd".
- 4.8 Roeddent hefyd yn awgrymu mai cyfuniad o Opsiynau B a C fyddai'r opsiwn gorau.
- 4.9 Cafwyd ymatebion cymysg gan Awdurdodau Lleol, er bod y rhan fwyaf yn cefnogi Opsiwn B.
- 4.10 Roedd rhai yn teimlo mai Opsiwn A oedd y "model symlaf a thecaf; [a] byddai'n galluogi hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y boblogaeth gyfan", ond roedd pryder "nad yw'n ystyried angen addysgol ac incwm; nac yn cyfateb i bolisi [Dysgu Oedolion]".
- 4.11 Ystyriwyd bod gan Opsiwn B y potensial i "dorri'r cylch amddifadedd a galluogi cyllid i gael ei dargedu at y rhai sy'n byw mewn tldi; yn economaidd anweithgar neu mewn tldi yn y gwaith", ond roedd yna risg y "gallai ganolbwyntio darpariaeth ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd o amddifadedd gwledig ac na fyddai'n darparu darpariaeth deg."
- 4.12 Roedd llawer yn teimlo mai Opsiwn C yw'r "opsiwn tecaf, a dylai ganolbwyntio ar sgiliau," ond "gallai hepgor anghenion sgiliau cyflogaeth" ac 'nid yw'n ystyried amddifadedd incwm."
- 4.13 Ychydig iawn o gefnogaeth a gafwyd i'r opsiwn i ddychwelyd y cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw. Er bod un Awdurdod Lleol yn teimlo y byddai'n "rhoi hyblygrwydd i ALLau ymatebion i anghenion lleol", roedd eraill yn teimlo bod y "risg NA FYDDAI'R cyllid yn cael ei ddyrannu i Ddysgu Oedolion" yn rhy fawr.
- 4.14 Roedd ymatebion gan unigolion yn ffafrio Opsiynau B a C, unwaith eto gyda chefnogaeth i gyfuniad o Opsiynau B a C.
- 4.15 Awgrymodd un unigolyn a oedd o blaid Opsiwn B bod "angen i amddifadedd incwm fod yn ffactor gan fod hyn yn effeithio ar allu [dysgwyr] i dalu am ddysgu; mae'n gwneud pethau'n dacach i'r rhai sy'n byw mewn tldi", tra byddai dewis Opsiwn C "yn galluogi cyllid i gael ei dargedu mewn ardaloedd â'r boblogaeth fwyaf heb gymhwyster".

- 4.16 Fodd bynnag, roedd un unigolyn yn teimlo na fyddai unrhyw un o'r opsiynau yn addas, gan nodi "os yw ardal wedi'i nodi fel ardal o amddifadedd, nid yw'n golygu bod y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny yn ddifffgiol yn addysgol".
- 4.17 Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan 11 o sefydliadau. Roedd saith ohonynt yn ffafrio Opsiwn B neu C, ac roedd tri yn ffafrio cyfuniad o Opsiynau B a C. Roedd un sefydliad yn cefnogi diddymu'r Grant Dysgu Oedolion a throsglwyddo'r cyllid i'r GCR.
- 4.18 Nododd y rhai a oedd o blaid mecanwaith ariannu cyfunol y "byddai cynnwys elfen amddifadedd fel rhan o'r fformiwla ariannu yn sicrhau bod lefel yr angen ar draws gwahanol awdurdodau lleol / partneriaethau yn cael ei hariannu a'i chefnogi".
- 4.19 Dywedodd sefydliadau a oedd yn ffafrio Opsiwn B fod "angen rhoi rhywfaint o sylw i'r cyfoeth cymharol yn yr ardal", a bod "cydberthynas gref rhwng amddifadedd incwm a chyrhaeddiad addysgol is". Roedd un sefydliad yn teimlo bod "amddifadedd incwm... yn ddangosydd mwy effeithiol o sgiliau sylfaenol mewn ardal economaidd ac y byddai hyn yn cyfateb i'r gwaith o ehangu [Dysgu Oedolion] i sgiliau sylfaenol a dysgu gydol oes".
- 4.20 Ar y llaw arall, roedd dadleuon o blaid Opsiwn C yn canolbwyntio ar yr effeithiau addysgol ar dlodi, gan nodi "os yw pobl yn dioddef o amddifadedd incwm, nid yw'n golygu eu bod nhw'n dioddef o amddifadedd addysgol", a dadleuodd un arall mai hwn oedd yr opsiwn gorau gan fod "addysg yn gallu arwain pobl allan o dlodi a gwella eu cyfleoedd bywyd nhw a chyfleoedd bywyd cenedlaethau'r dyfodol".
- 4.21 Dim ond un sefydliad a ddewisodd Opsiwn D, gan nodi mai "cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch faint o gyllid a ddyrennir yn eu cymunedau, o ystyried amgylchiadau ac anghenion lleol... byddai cyllid yn amodol ar graffu ac atebolrwydd democrataidd, gan sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu lle'n briodol".
- 4.22 Yn ogystal, cynigiodd rhai sefydliadau ymatebion storiol heb ddewis opsiwn yn uniongyrchol. Roedd un yn poeni y "gallai newid radical greu rhwystrau sylweddol a chreu mecanwaith beichus yn genedlaethol heb adlewyrchu anghenion lleol yn gywir". Roedd eraill yn pwysu am gynnydd yn y gyllideb gyffredinol, gan nodi y "dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhai â'r lefel isaf o gymhwyster ac sydd angen y cymorth mwyaf. Dylid cael cymorth Gweinidogion i sicrhau cynnydd yn y gyllideb ar draws portffolios. Dylai cyllideb gael ei gosod yn seiliedig ar yr hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniadau dymunol".

Cwestiwn 14 – Pam ydych chi'n credu mai'r opsiwn hwn fyddai orau i ddysgwyr?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	6
Sefydliadau Addysg Uwch	3
Awdurdodau Lleol	15
Sefydliadau	10
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	8
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	48

Y farn gyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddyrannu cyllid yn seiliedig ar boblogaeth ac amddifadedd incwm a/neu amddifadedd addysg. Ni chafwyd llawer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gan fod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi ychwanegu eu sylwadau at y cwestiwn blaenorol.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 4.23 Nododd un SAB mai "Modelau B a C yw'r mwyaf addas i ddiwallu anghenion a sicrhau mynediad teg"; ac roedd un arall yn teimlo y "byddai Opsiwn A yn ateb yr holl ofynion cymdeithasol".
- 4.24 Nododd Partneriaethau Dysgu Oedolion y "dylid rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu a chyflawniad addysgol".
- 4.25 Roedd SAUau yn teimlo y byddai'r opsiwn yr oeddent wedi'i ddewis "yn darparu rhaniad teg i dargedu'r rhai mwyaf difreintiedig" ac yn "gwneud yr agenda gwrth-dlodi yn eglur".
- 4.26 Roedd Awdurdodau Lleol yn teimlo y byddai'r opsiwn yr oeddent wedi'i ddewis "yn caniatáu i gyllid gael ei ddyrannu'n gymesur" ac yn "bodloni gofynion sgiliau hanfodol".
- 4.27 Cododd un awdurdod lleol y mater o fecanweithiau eraill ar gyfer dyrannu'r cyllid, gan nodi bod "angen i amddifadedd gwledig gael ei gydnabod a'i ateb".
- 4.28 Darparodd sefydliadau gymysgedd o ymatebion, gan nodi y "byddai fformiwla sy'n fwy teg yn gymdeithasol yn fwy costeffeithiol" a bod "angen i ni sicrhau bod y mesuriad mwyaf cywir o angen lleol yn cael ei ddefnyddio".
- 4.29 Ymatebodd un cynghorydd "na ddylai darpariaeth gael ei rhwystro gan amddifadedd economaidd".
- 4.30 Galwodd unigolion am "gyllid a dargedir i wella cyflogadwyedd", gan nodi y "dylai dyraniad gael ei wneud yn ôl angen."

Cwestiwn 15 – Beth sydd wedi dylanwadu ar eich barn chi?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	4
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	6
Sefydliadau Addysg Uwch	2
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	10
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	9
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	50

Y farn gyffredinol

Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr mai eu profiad eu hunain o ddarpariaeth yn y sector oedd wedi cael y dylanwad mwyaf ar eu hymatebion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 4.31 Nododd Sefydliadau Addysg Bellach fod y ffactorau a oedd wedi dylanwadu ar eu barn yn cynnwys “profiad o ddarpariaeth” a’r angen i “dargedu meysydd o amddifadedd lluosog” a “mynd i’r afael â gwahaniaethau mawr mewn cyllid”.
- 4.32 Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion wedi manteisio ar “gyfoeth o brofiad cyflenwi ledled Cymru” a “gwybodaeth am y sefyllfa bresennol a gwybodaeth am yr ardal leol” i lunio eu hymateb i’r ymgynghoriad.
- 4.33 Nododd SAUau fod “cyfoeth o brofiad” a “gwybodaeth ranbarthol” ar gael ac yn dylanwadu ar eu dewisiadau.
- 4.34 Roedd Awdurdodau Lleol wedi’u dylanwadu gan “ddadansoddiad o ddata”, “gwybodaeth am amddifadedd lleol” a “phrofiad o fyw a gweithio mewn ardal wledig”. Roedd eu cymhellion yn cynnwys yr angen i “wneud y mwyaf o adnodd cyfyngedig”, “diwallu anghenion poblogaeth sy’n tyfu” a “diogelu cyllid, strwythurau cyflenwi a darpariaeth.”
- 4.35 Roedd gan sefydliadau “brofiad personol yn y maes [Dysgu Oedolion]”, a ddylanwadodd ar eu hymatebion. Roeddent yn awyddus i “herio anghydraddoldeb incwm ac addysgol” ac “adlewyrchu gofynion newidiol y gweithlu”, ac roeddent yn teimlo bod “ansawdd a thegwch yn elfennau hollbwysig” o unrhyw fecanwaith ariannu.
- 4.36 Nododd unigolion fod profiadau bywyd, “gweld effaith bob dydd tlodi” ac “adroddiadau’r cyfryngau ar ddarpariaeth” yn dylanwadu ar eu hymatebion. Pwysleisiwyd bod “angen tegwch rhwng darpariaeth wledig/drefol” ac y “dylid annog creadigrwydd yn hytrach nag addysg oedolion i bobl dlawd”.

Cwestiwn 16 - Fyddech chi'n cefnogi'r syniad o ganran o'r arian yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i ariannu prosiectau *Atebion Creadigol* yn y sector?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	5
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	7
Sefydliadau Addysg Uwch	4
Awdurdodau Lleol	18
Sefydliadau	10
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	14
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	59

Y farn gyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cronfa o gyllid Atebion Creadigol ar gyfer Dysgu Oedolion i annog arloesi. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf ohonynt eisiau gweld y gronfa hon fel cronfa o gyllid ychwanegol, yn hytrach nag arian wedi'i gymryd o'r dyraniad grant presennol.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 4.37 Roedd ymatebion SABau i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynnig yn bennaf, ond yn rhybuddio y "byddai cymryd arian o'r Grant Dysgu Cymunedol, sy'n isel yn barod, yn gwaethygu'r sefyllfa mewn ardaloedd lle mae grantiau isel yn annigonol i ateb y galw yn barod". Roedd un arall yn gefnogol, ond nododd yr hoffai weld Atebion Creadigol yn "cael eu hariannu ar ben y gyllideb Dysgu Oedolion bresennol" ac y dylai Llywodraeth Cymru "gefnogi datblygiad ac arloesi trwy gyllidebau datblygu pwrpasol ac nid trwy ddarpariaeth".
- 4.38 Awgrymodd un SAB "er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd a manteision archwilio gwahanol fentrau, mae cyllid yn adnodd mor brin fel bod angen i ni wneud yn siŵr bod yr arian sydd ar gael yn mynd tuag at ddarpariaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â'r angen mwyaf".
- 4.39 Cynigiodd Partneriaethau Dysgu Oedolion ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda hanner yr ymatebwyr o blaid a hanner yn erbyn.
- 4.40 Nododd un bartneriaeth y byddent "yn cefnogi ariannu prosiectau Atebion Creadigol gan ei fod yn cael effaith uniongyrchol ar ddarpariaeth," ond roeddent yn poeni y "byddai cymryd arian o'r grant i greu cronfa ar gyfer prosiectau atebion creadigol yn cael effaith negyddol ar wasanaethau... gan fynd â'r cyllid ymhellach oddi wrth ddysgwyr agored i niwed. Dylai ariannu prosiectau atebion creadigol fod yn gynaliadwy er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd y gwasanaeth i ddysgwyr".
- 4.41 Roedd eraill yn cytuno, gan nodi bod "cyn lleied o gyllid [ar gyfer Dysgu Oedolion] fel y gallai/byddai unrhyw ganran o'r arian a ddyrennir i feysydd eraill yn effeithio ar yr ardal, gyda llai o gyrsiau'n cael eu cynnig. Pe bai modd codi'r arian mewn ffordd arall, mae rhywfaint o ddilysrwydd yn gysylltiedig ag archwilio dulliau

cyflenwi arloesol.” Ychwanegodd un arall, “er y croesewir nodd i arloesi a chreadigrwydd, nid yw'r gronfa bresennol yn ddigon sylweddol i ddyrannu canran yn y broses gychwynnol”.

- 4.42 Awgrymodd un ymatebydd y dylai “partneriaethau fod â'r opsiwn i greu eu hymagwedd ‘atebion creadigol’ eu hunain, gyda chymorth gwerthusiad perthnasol. Byddai hyn yn sicrhau y gall partneriaethau ymateb yn gyflym yn hytrach na mynd trwy unrhyw broses ymgeisio hirwyntog.”
- 4.43 Roedd SAUau o blaid cronfa Atebion Creadigol yn bennaf.
- 4.44 Adleisiodd un SAU ymateb y bartneriaeth Dysgu Oedolion, gan nodi yr hoffent “weld Partneriaethau’n cael eu galluogi i ddyrannu arian i brosiectau gwerth chweil a rhoi hwb i arloesi. Hoffem weld y gronfa hon yn cael ei gweinyddu gan Bartneriaethau, nid yn ganolog, i sicrhau cyfraniad rhanbarthol a lleol a lefel o arbenigedd ynghylch yr hyn fydd yn gweithio yn y gwahanol ardaloedd.”
- 4.45 Roedd SAUau yn poeni hefyd am gymryd cyllid o'r grant presennol, gan nodi eu bod “yn cefnogi'r syniad o gronfa atebion creadigol, ond mae gennym bryderon ynglŷn â chymryd cyllid o ddarpariaeth sy'n cael ei thanariannu yn barod er mwyn hwyluso hyn. Dylid ystyried sut i alluogi pob partneriaeth i weithio'n greadigol ac arloesol ac i sicrhau cyllid pellach, o feysydd portffolio eraill o bosibl... i ariannu hyn”.
- 4.46 Nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o blaid cronfa atebion creadigol.
- 4.47 Dywedodd un, “nid ydym yn teimlo ein bod ni angen cronfa benodol. Dylai elfen o arloesi a pharodrwydd i dreialu ymagweddau newydd fod yn rhan o raglen neu gynlluniau blynyddol pob partneriaeth. Mae'r cymorth a ddarperir yn hollbwysig i sicrhau llwyddiant yr hyn sy'n cael ei gyflawni”. Awgrymodd un arall y “dylai partneriaethau deimlo bod datblygu ymagweddau mwy arloesol at heriau presennol yn rhan o'u cylch gwaith. Bydd ganddynt wybodaeth leol am y broblem a byddant yn gallu darparu ateb mwy cyfannol.”
- 4.48 Roedd eraill yn cefnogi'r syniad, ond yn poeni am yr awgrym y gallai gael ei ariannu gan y gyllideb bresennol. Nododd un y “byddem yn cytuno'n gryf y byddai cyflwyno syniad neu fentrau newydd o fudd [i Ddysgu Oedolion], ond byddai gennym bryderon ynghylch yr arian yn cael ei ddyrannu o'r Grant Dysgu Cymunedol a dyraniadau ALLau yn lleihau 10%”.
- 4.49 Adleisiwyd y teimlad hwn yn y rhan fwyaf o'r ymatebion gan awdurdodau lleol, gan awgrymu “mai prin iawn yw'r cyllid [ar gyfer Dysgu Oedolion], y gallai/byddai unrhyw ganran o'r arian a ddyrennir i feysydd eraill yn effeithio ar yr ardal, gyda llai o gyrsiau'n cael eu cynnig a'r posibilrwydd o staff yn colli eu swyddi ac ati.” Yn ogystal, “er y croesewir nodd i arloesi a chreadigrwydd, nid yw'r gronfa bresennol yn ddigon sylweddol i ddyrannu canran yn y broses gychwynnol.”
- 4.50 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau a ymatebodd o blaid y syniad. Awgrymodd un y “gall fod yn ffordd gadarnhaol o annog ymagweddau newydd ac arloesi i ddarparu Dysgu Oedolion ar gyfer cyfran ehangach o'r boblogaeth”. Roedd eraill yn teimlo y “byddai'n galluogi mwy o ymgysylltu â'r gymuned a mwy o ddemocrateiddio

gwasanaethau”, ac yn “hyrwyddo arloesi a gwelliant parhaus y cynnig i gymunedau o Gronfeydd Cyhoeddus”.

- 4.51 Yn yr un modd ag ymatebwyr eraill, roedd y sefydliadau’n awyddus i sicrhau na fyddai hyn “ar draul rhywfaint o’r cyllid a roddir i bob awdurdod lleol’ ac “nad yw’n briodol cymryd arian o’r gyllideb bresennol ar hyn o bryd”.
- 4.52 Roedd un o’r gwleidyddion a ymatebodd yn erbyn y cynnig ac yn teimlo y “dylai arloesi a bod yn barod i dreialu ymagweddau newydd a gwahanol fod yn rhan o gynllun neu raglen”.
- 4.53 Roedd y rhan fwyaf o’r unigolion a ymatebodd o blaid cronfa o arian Atebion Creadigol. Roedd un yn teimlo y “gall arwain at arloesi a datblygu busnes bach a darparu cymorth cymunedol i amrywiaeth o unigolion”, a nododd un arall fod “cyfle i gymryd rhan mewn creadigrwydd yn gadarnhad llesiant cadarnhaol”.

Cwestiwn 17 – Sut allai hyn weithio yn eich ardal awdurdod unedol?

Ymatebion yn ôl sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Partneriaethau Dysgu Oedolion	3
Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)	5
Sefydliadau Addysg Uwch	2
Awdurdodau Lleol	10
Sefydliadau	3
Gwleidyddion	1
Y Cyhoedd/Unigolion	8
Unigolion yn cefnogi ymateb Addysg Oedolion Cymru	0
Cyfanswm	32

Y farn gyffredinol

Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai cronfa Atebion Creadigol gael ei rheoli trwy waith partneriaeth rhwng darparwyr – a gymeradwyir trwy bartneriaethau Dysgu Oedolion.

Dadansoddiad yn ôl Sector

- 4.54 Dywedodd SABau y “gallai cydweithredu ryddhau cyllid ar gyfer dysgu anachrededig” a bod gan golegau brofiad o ddarparu prosiectau Atebion Creadigol.
- 4.55 Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn teimlo bod “angen arloesi gan fod cyllid wedi’i ymestyn yn barod” ac y “dylai prosiectau gael eu datblygu mewn partneriaeth â’r sector ysgolion i rannu arfer da”.
- 4.56 Awgrymodd SAUau y “byddai system gwneud cais yn ddymunol” ac y “dylai ceisiadau gael eu cymeradwyo gan y bartneriaeth [Dysgu Oedolion]”.
- 4.57 Roedd awdurdodau lleol yn teimlo y “dylai prosiectau fod yn rhan o gynlluniau blynyddol”, gan gytuno y “byddai system gwneud cais yn ddymunol”. Pwysleisiodd

un awdurdod lleol fod “rhaid cyflwyno diwylliant o arloesi” ac y byddai prosiectau o’r fath “yn dod ag arloesedd angenrheidiol i’r sector” ac y “gallai fod yn sbardun ar gyfer partneriaeth”.

- 4.58 Roedd sefydliadau’n teimlo bod “angen i’r system fod yn hygyrch ac addasadwy i bob ardal” a bod rhaid i Lywodraeth Cymru “sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hariannu’n ddigonol”.

5. Sylwadau atodol

- 5.1 Cafwyd amryw o sylwadau eraill gan ymatebwyr mewn perthynas â'r ymgynghoriad.
- 5.2 Roedd rhai o'r sylwadau hyn yn ymwneud â'r diffiniad o Ddysgu Oedolion, gan nodi bod "angen diffiniad clir o Ddysgu Oedolion yng Nghymru. Weithiau, mae'n cael ei adnabod fel Dysgu Cymunedol Oedolion yn unig, ond mae sawl math arall o Ddysgu Oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu galwedigaethol oedolion (mewn AB yn bennaf), dysgu anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol lleol (e.e. llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac ati), ynghyd ag mewn cymdeithasau a chlybiau hamdden". Nododd un arall fod "Dysgu Oedolion yn mynd ymhell y tu hwnt i'r diffiniad cyfyngedig a amlinellir yn yr ymgynghoriad a bod dysgu er ei fwyn ei hun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at iechyd a llesiant, ynghyd â chyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n anodd gwneud sylwadau ar fecanweithiau ariannu heb wybod y diffiniad cywir o Ddysgu Oedolion. Dylai gwahaniaethu mathau o Ddysgu Oedolion sicrhau bod mecanweithiau cyflenwi effeithiol yn cael eu rhoi ar waith, gan wella atebolrwydd a hwyluso monitro perfformiad".
- 5.3 Roedd un ymatebydd yn teimlo "nad oedd digon o wybodaeth am y ddarpariaeth bresennol yn y ddogfen ymgynghori. Diffyg eglurder ynghylch cyfanswm y cyllid sy'n cael ei gyfrannu gan golegau addysg bellach (AB), gan awdurdodau lleol o'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) a gan ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion".
- 5.4 Awgrymodd amryw o ymatebwyr y byddai "angen cyflwyno trefniadau pontio pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu newid y model ariannu yn sylweddol. Rhaid i'r ddarpariaeth gael ei hariannu'n sylweddol."
- 5.5 Roedd eraill eisiau gweld ymagwedd fwy trawsbynciol, gan nodi y "dylai adrannau Llywodraeth Cymru gyfuno eu holl gyllidebau sy'n targedu pobl hŷn, dysgu gydol oes a llesiant." Roedd galwad hefyd am "gymorth gan Weinidogion i gynyddu'r gyllideb ar draws portffolios. Dylai cyllideb gael ei gosod yn seiliedig ar yr hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniadau dymunol."
- 5.6 Cafwyd ymholiad ynghylch "sut y bydd Dysgu Oedolion yn cyfateb i'r Comisiwn arfaethedig? Byddai'n rhaid i TERCW roi sylw priodol i Ddysgu Oedolion, nad yw'n cael llawer o sylw yn y ddogfen ymgynghori dechnegol".
- 5.7 Pwysleisiodd un sefydliad, "mae'n hollbwysig bod cymorth ariannol ac ymarferol yn cael ei dargedu i gynyddu'r ddarpariaeth a'r cyfraniad at Addysg Oedolion cyfrwng Cymraeg. Nid oes unrhyw sylw penodol i ddarpariaeth Gymraeg a/neu ddwyieithog yn yr ymgynghoriad o ystyried Strategaeth Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei hymrwymiaadau i 'gynyddu argaeledd cyrsiau cyflogadwydd a sgiliau hanfodol trwy gyfrwng y Gymraeg', a 'pharhau i weithio i gefnogi gwaith y Mentrau Iaith i annog dysgwyr i ymgysylltu â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg".

6. Ychwanegiad A – Atebwyr i'r ymgynghoriad

6.1 Sefydliadau Addysg Bellach

Addysg Oedolion Cymru
Coleg Cambria
Coleg Sir Gâr
Coleg y Cymoedd
Grŵp Llandrillo Menai
Coleg Gŵyr Abertawe
Coleg Sir Benfro

6.2 Partneriaethau Addysg Oedolion

Partneriaeth Sir Ddinbych a Chonwy
Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent
Rhwydwaith Dysgu Cymunedol Castell-nedd Port Talbot
Sir Benfro yn Dysgu
Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys
Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam
Dienw

6.3 Awdurdodau Lleol

Cyngor Sir Ynys Môn
Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Caerdydd
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Dysgu Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Dienw
Dienw
Dienw
Dienw
Dienw
Dienw
Dienw

6.4 Sefydliadau Addysg Uwch

Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Y Brifysgol Agored
Dienw
Dienw
Dienw

6.5 Sefydliadau

Age Cymru
Gyrfa Cymru
City Lit

Clybiau Plant Cymru
 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Colegau Cymru
 Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru
 Estyn
 Cyngor y Gweithlu Addysg
 Sefydliad Dysgu a Gwaith
 NASUWT Cymru
 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
 Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon Cyf.
 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
 Comisiynydd y Gymraeg
 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 Dienw
 Dienw

6.6 Gwleidyddion

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Thai
 Cyngor Gwynedd
 Y Cynghorydd Nigel Howells, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant,
 Cyngor Caerdydd

6.7 Unigolion

Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 Dienw
 B Fawcett
 Rob Humphreys
 Lee Fox
 Susan Evans

6.8 Unigolion yn cefnogi Addysg Oedolion Cymru

Adam Robson	Ann Glaiser
Adele Gatt	Ann Herbert
Adrian Heathfield	Ann Rhodes
Adrian Roper	Anna Lockwood
Alyn Thomas	Annabel Bohana
Alyson O'Connell	Anthony Konieczny
Amanda Ault	Antoni Schiavone
Andrea Jones	Arthur Shepherd
Andrew Morse	Avril Wright

Barbara Turner
Beth Berry
Bethan Williams
Betty Mason
Bev Williams
Beverley Bowen
Bob Young
Bonita Kinsey
C Davies
Carolyn Parry
Cath Hicks
Catherine Clark
Catherine Poynton
Catherine Watkins
Catrin Roberts
Ceinwen Statter
Celia Forsythe
Ceri Fox
Ceri Lewis
Ceri Williams
Chris Franks
Christina Gallagher
Christopher Gilmore
Cicely Blacklaw Jones
Clair Brick
Claire Grist
Clare Evans
Clive Morgan
Dafydd Rhys
Dave Fowler
Dave Lovell
Dave Peregrine
David Ashman
David Elis-Williams
David Jones
David McKeevers
David Norman
David Smith
David West
Debbie Baker
Deborah Crecraft
Deborah John
Derek Havard
Derek Lewis
Dianne Locke
Dom Belli
Dominic Jones
Donna Ridler
Doug Isaacs
E Jones

Eifion Williams
Eleanor Jones
Elizabeth Fox
Emma Chivers
Emma Gray
Gail Lee
Gareth Cork
Gaynor Hanlon
Gethin Evans
Gill Crandon
Goronwy Owen
Gwen Griffiths
Gwyn Roberts
Hannah Jones
Harriet Robson
Hayley Davies
Hayley Evans
Hayley Morris
Heather Willbourn
Huw Beckett
Huw Jones
Iona Herbert
James Berry
James Fleming
Jan Tiley
Jane Booty
Jane Hawkshaw
Jane Rigby
Jane Sykes
Jane Watkins
Jayne Ireland
Jayne Murphy
Jeff Moses
Jenna Norman
Jennifer Jones
Jeremy Gass
Jessica Conlin
Jina Gwyrfai
Jo Maddy
Joanne Flower
Jody Jones
Joe England
John Garrett
John Graystone
Jonathan Goddard
Jonathan Mayne
Joy Williams
Judith Wilding
Julia Wilson
Julie Griffiths

Julie Roberts
Karen Fisher
Karina Scott
Kathryn Robson
Kathy Cook
Katie Love
Katy Muirhead
Kay Webber
Kelly McCarthy
Kim Johnson
Laura Jones
Lauren Blacklaw-Jones
Leanne Andreadis
Leane Saunders
Len Preece
Leonard Preece
Lilian Nicholls
Lisbeth McLean
Lise Jacobsen
Llinos Hicks
Lottie Dessent
Louise Gilmore
Lucy Billing
Luke Ward
Lynda Ballam
Maggie Townsend
Malcolm Llywelyn
Manon Jones
Margaret Dawson
Margaret Jones
Maria Owen-Roberts
Marjorie Witty
Martin Hughes
Martyn Reed
Martyn Watkins
Mary Dunford
Mary Hughes
Megan Matthews
Mel Davies
Melanie Baugh
Michelle Waldman
Mike McCann
Miranda Edwards
Miriam Page
Natasha Harris
Nerina Scott
Nicola Holmes
Nichola Lowe
Nicola Perkins
Nicola Richards

Nigel Davies
Nigel Price
Nikki Powell
Pam Bayliss Edwards
Pam Griffith
Patricia Hooper
Patrick Robson
Paul Glaze
Paul Stepczak
Rachel Burton
Rachel Jewell
Rahala Chowdhury
Rajiv Dhall
Raymond Neil
Rhian McCarthy
Rhian Owen
Rhiannon Brown
Rhydian Campbell
Rhydian Williams
Richard Tanswell
Rona Jones
Ronnie Parry
Rowland Jones
S Mckenzie
Saffa Ibrahim
Samuel Emmett
Sarah Hembery
Sarah Murphy
Sarah O'Connell Jones
Sean Bloodworth
Sharon Howell
Shelley Kear
Shumaila Ali
Sian Ellis-Jones
Sian Jones
Simon Conlin
Simon Fleming
Sion Jones
Sonia Reynolds
Sophie Stephens
Stephanie Meakin
Stephen Thomas
Steve Donoghue
Steve Edwards
Sue Da'Casto
Sue Konieczny
Sue Owen
Susan Roberts
Tania Hayward
Terry Bishop

Theresa Burling
Timothy Owen
Tom Williams
Tomos Knox
Vicky Knappett
Victoria Parsons

Wanjiku Ngotho-Mbugua
Wayne Osborne
Wendy Lewis
William Powell
Zoe Hall